# Tystysgrif Lefel 2 CIH mewn Ymarfer Tai

Sefydliad Dyfarnu - CIH

## Cyflwyniad

Y Sefydliad Tai Siartredig (CIH) yw'r llais annibynnol dros dai, a chartref safonau proffesiynol. Mae ein nod yn syml – darparu'r cyngor, y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol ym maes tai, a'u sefydliadau, i fod yn wych. Mae CIH yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad nid-er-elw. Mae hyn yn golygu bod yr arian rydym yn ei wneud yn cael ei roi'n ôl i mewn i'r sefydliad ac yn ariannu'r gweithgareddau rydym yn eu cyflawni i gefnogi'r sector tai. Mae gennym aelodaeth amrywiol o bobl sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a hynny mewn 20 o wledydd ar bum cyfandir ar draws y byd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.cih.org.

CIH yw'r sefydliad dyfarnu ar gyfer cymwysterau tai ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymwysterau perthnasol a chyfoes o'r safon uchaf i bawb ym maes tai.

Pwrpas manyleb y cymhwyster yw rhoi gwybodaeth i'r ganolfan am yr unedau sy'n rhan o'r cymhwyster hwn, y gofynion sicrhau ansawdd a'r dulliau asesu sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster, yn ogystal â strwythur y cymhwyster.

Cyfeirnod y cymhwyster yw 603/3583/X.
Y dyddiad cychwyn gweithredol yw 1 Medi 2018.
Cod cynllun CIH yw 2H04.

Cysylltu â ni:
Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â manyleb y cymhwyster, anfonwch e-bost i accreditation@cih.org

## Y cymhwyster

Mae'r cymhwyster yn gymhwyster galwedigaethol lefel 2 ar gyfer y sector tai, sy'n cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual), Cymwysterau Cymru a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA).

Amcan y cymhwyster hwn yw rhoi cyflwyniad i ddysgwyr i'r maes tai ac i weithio ym maes tai.

**Nod y cymhwyster yw…**

- rhoi dealltwriaeth sylfaenol o dai i ddysgwyr,
- cyflwyno rhai o'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â thai, boed cyflogedig neu wirfoddol,
- paratoi dysgwyr ar gyfer astudiaeth bellach ar lefel 3.

**Mae'r cymhwyster yn addas i ddysgwyr…**

- sy'n newydd i'r maes tai neu weithwyr mewn safle rheng flaen ac sydd am wella eu hymwybyddiaeth gyffredinol o'r maes,
- nad ydynt yn gweithio ym maes tai ar hyn o bryd ond yn ystyried safle rheng flaen yn y maes fel dewis gyrfa,
- sy'n denantiaid, yn breswylwyr neu'n aelodau o fwrdd sy'n dymuno cynyddu eu cyfranogiad personol a'u dealltwriaeth o'r maes tai,
- sy'n gweithio ym maes tai ac yn dymuno ennill cymhwyster cychwynnol yn y maes,
- sydd dros 14 oed. Os ydych chi'n cynnig y cymhwyster i ddysgwyr o dan 16 oed, cysylltwch ag accreditation@cih.org i'n galluogi i fonitro'r defnydd a'r ddarpariaeth.

**Gofynion mynediad**

Nid yw CIH fel sefydliad dyfarnu (CIH AO) yn pennu gofynion mynediad. Mae CIH AO yn argymell y bydd y dysgwr, er mwyn cyflawni'r cymhwyster:

- yn meddu ar y potensial a'r cyfleoedd i ennill y cymhwyster

Mae rhagor o fanylion am y lefel y mae angen i'r dysgwr allu ei chyrraedd ar gael yn yr adran ar ddisgrifyddion lefel 2.

**Llwybrau cynnydd**

Efallai y bydd y dysgwr yn dymuno camu ymlaen i ddysgu pellach:

- ar lefel 3 – os oes gan y dysgwr brofiad ym maes tai neu brofiad goruchwylio/rheoli ac wedi astudio ar lefel 2 neu 3 yn flaenorol, efallai y bydd yn gallu camu ymlaen i Dystysgrif Lefel 3 CIH mewn Ymarfer Tai.

## Disgrifyddion Lefel 2

Mae'r disgrifyddion lefel 2 yn dangos y lefel y mae'n rhaid i ddysgwr fod yn gweithio arni er mwyn ennill y cymhwyster. Ni ddylid eu defnyddio fel meini prawf marcio, ond gellir eu defnyddio fel offeryn asesu cychwynnol i bennu lefel y dysgwyr.

| Disgrifydd gwybodaeth (mae'r deiliad...) | Disgrifydd sgiliau (mae'r deiliad yn gallu...) |
|---|---|
| Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau mewn maes astudio neu faes gwaith er mwyn cyflawni tasgau sydd wedi'u diffinio'n dda, a mynd i'r afael â phroblemau syml.<br><br>Yn gallu dehongli gwybodaeth a syniadau perthnasol.<br><br>Yn ymwybodol o'r ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes astudio neu'r maes gwaith dan sylw. | Dewis a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol perthnasol i gyflawni tasgau arferol yn bennaf sydd wedi'u diffinio'n dda, a mynd i'r afael â phroblemau syml.<br><br>Canfod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i ddylanwadu ar gamau gweithredu.<br><br>Nodi pa mor effeithiol yr oedd y camau gweithredu. |

I gael cymhariaeth o lefelau cymwysterau ar draws y DU, gweler http://www.sqa.org.uk/files_ccc/QualificationsCanCrossBoundaries.pdf

## Prentisiaeth

Y cymhwyster yw cydran dechnegol / gwybodaeth Prentisiaeth Tai Lefel 2 SASE – Cymru/Gogledd Iwerddon.

Mae'r unedau o'r cymhwyster wedi cael eu cyfeirio at y Safon Prentisiaeth: Cynorthwyydd Rheoli Eiddo / Tai, Lloegr. Gweler Atodiad 1, tudalen 15.

## Strwythur y cymhwyster

Teitl y cymhwyster: Tystysgrif Lefel 2 CIH mewn Ymarfer Tai

Rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf 14 credyd er mwyn ennill y cymhwyster, a hynny o 4 uned orfodol.

105 awr yw'r oriau dysgu dan arweiniad sy'n cael eu hargymell ar gyfer y cymhwyster hwn.  Mae CIH AO yn disgwyl y gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster mewn mwy neu lai o amser yn unol â'u cynllun y mae CIH AO wedi'i gymeradwyo cyn dechrau'r cwrs.  Gellir cyflwyno'r unedau mewn unrhyw drefn. Disgwylir mai 140 awr fydd cyfanswm yr oriau cymhwyso.

Dyfernir y cymhwyster ar sail Pasio / Cyfeirio / Methu.

**Mae'r cymhwyster yn cynnwys y 4 uned orfodol ganlynol,**
***Rhaid cyflawni 14 credyd o'r grŵp hwn:***

| Teitl yr uned | Credydau | Lefel | Tudalen |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth tai a sefydliadau tai<br>Rhif yr uned M/617/2120 | 4 | 2 | 10 |
| Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai<br>Rhif yr uned T/617/2121 | 3 | 2 | 11 |
| Datblygu proffesiynol ym maes tai<br>Rhif yr uned A/617/2122 | 3 | 2 | 12 |
| Asedau, atgyweirio, a chynnal a chadw<br>Rhif yr uned F/617/2123 | 4 | 2 | 13 |

## Darparu'r cymhwyster

**Cymeradwyaeth i ddarparu'r cymhwyster**
RHAID i ganolfannau gael eu cymeradwyo gan CIH AO i gynnig y cymhwyster cyn ei ddarparu.  Ni fydd cofrestriadau dysgwyr yn cael eu derbyn nes bydd y broses hon wedi'i chwblhau.

**Cofrestru dysgwyr a ffioedd**
Cyn darparu'r cymhwyster, RHAID i chi gofrestru pob dysgwr gyda CIH AO.  Mae ffi'n daladwy ar gyfer pob dysgwr.  Cyfrifoldeb y ganolfan yw talu'r ffioedd hyn a byddwch yn cael anfoneb am y swm gofynnol ar ôl i ni gael y ffurflenni cofrestru.  Mae'r rhestr ffioedd ar gael ar ein gwefan drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
http://www.cih.org/ao/centrefees

Bydd pob dysgwr yn cael cynnig aelodaeth myfyrwyr CIH am ddim drwy gydol y cwrs.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**
Cafodd ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu gwneud wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn i hybu mynediad ac i leihau rhagfarn. Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gwneud fel rhan o'r gwaith o ddarparu ac asesu'r cymhwyster hwn.

Byddai CIH AO yn disgwyl i gydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu hintegreiddio yn y broses ddarparu ar gyfer pob canlyniad dysgu, hyd yn oed lle nad oes meini prawf asesu penodol ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Rhoi canlyniadau dysgu a meini prawf asesu mewn cyd-destun**
Mae CIH AO yn disgwyl i ganolfannau roi'r gwaith o ddarparu ac asesu unedau mewn cyd-destun yn unol ag amgylchiadau lleol a sectoraidd y grŵp dysgwyr maen nhw'n darparu ar eu cyfer. Er enghraifft, byddai cwestiwn sy'n ymwneud â'r gyfraith yn cael ei gymhwyso i gyfraith y wlad lle mae'r grŵp dysgwyr yn gweithredu.

**Gofynion o ran cymhwysedd galwedigaethol staff**

**Profiad o'r canlynol:**
- Gweithio yn y diwydiant tai, ar lefel rheoli yn ddelfrydol.
- Gweithio yn y diwydiant penodol y mae cynnwys yr uned (lle mae hwn yn faes tai arbenigol neu bwnc nad yw'n benodol i faes tai) yn rhoi sylw iddo.
- Darparu cymwysterau galwedigaethol.
- Addysgu, asesu neu ddilysu fel y bo'n briodol.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster tai ar lefel sy'n uwch na lefel y cymhwyster/unedau sydd i'w darparu.
- Gradd neu gymhwyster ar lefel gradd mewn maes cytras a/neu gymhwyster proffesiynol perthnasol.

**Gofynion cymhwyso penodol i'r rôl:**

- **Athrawon/Tiwtoriaid:**
  Cymhwyster addysgu rheoledig neu gyfatebol.

- **Aseswyr:**
  Mae asesu yn weithgaredd y gellir ei gyflawni gan unigolyn penodol neu fel rhan o rôl ehangach unigolyn, e.e. Goruchwyliwr, rheolwr, tiwtor. Rhaid i bob asesydd feddu ar
  gymhwyster asesu, e.e. Dyfarniadau Asesydd, Dyfarniadau/unedau A1/2, D32/33) neu fod yn gweithio tuag at hyn.

- **Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol:**
  Mae sicrhau ansawdd mewnol yn weithgaredd y gellir ei gyflawni gan unigolyn penodol neu fel rhan o rôl ehangach unigolyn. Rhaid i bob Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, e.e. Dyfarniadau Sicrhau Ansawdd Mewnol, Dyfarniad/unedau V1, D34) neu fod yn gweithio tuag at hyn.

Mae rhestr o gymwysterau cyfredol ar gael ar y cofrestrau canlynol:

- Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: http://register.ofqual.gov.uk
- Yr Alban: http://scqf.org.uk/the-framework/search-database/

Rhaid i Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol dan Hyfforddiant ennill cymhwyster Asesydd/Sicrhau Ansawdd Mewnol perthnasol o fewn blwyddyn i ddechrau yn y rôl. Rhaid i'r holl staff heb gymhwyso sy'n asesu gael 100% o'u gwaith wedi'i ddilysu gan asesydd sydd wedi cymhwyso.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn addysgu, asesu, dilysu a'r diwydiant tai.

## Asesu

Rhaid i ganolfannau gyfeirio at lawlyfr Asesu AO CIH cyn datblygu eu cyrsiau a'u hasesiadau cysylltiedig.

Pwrpas asesu yw gwneud dyfarniad cyson a dilys bod dysgwyr wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol i ennill y cymhwyster. Mae'r meini prawf asesu ym mhob uned yn dangos y dystiolaeth y bydd angen i ddysgwyr ei chynhyrchu er mwyn dangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu.

Mae'r holl asesiadau ar gyfer y cymhwyster yn cael eu llunio gan y ganolfan, eu marcio gan y ganolfan ac yna mae'n rhaid sicrhau eu hansawdd yn fewnol (gan y ganolfan), a'u cymedroli'n allanol (gan CIH AO).

**Egwyddorion asesu**

Wrth lunio a darparu asesiadau, rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Dilysrwydd – Mae asesiad yn ddilys os yw'n glir ac yn ddiamwys, 'yn gwneud beth mae'n ei ddweud ar y tun', yn ateb y gofyn a bod canlyniadau'r asesiad yn bodloni eu dibenion arfaethedig.
- Dibynadwyedd – Mae asesiad yn ddibynadwy os nad yw siawns yn dylanwadu ar ei ganlyniadau, a bod y broses asesu'n cynhyrchu canlyniadau a fyddai'n cael eu hatgynhyrchu pe bai'r asesiad yn cael ei ailadrodd.
- Cymaroldeb – Canlyniadau asesu y gellir eu cymharu mewn safon rhwng asesiadau mewn cymhwyster, rhwng cymwysterau tebyg, gyda sefydliadau dyfarnu eraill, a dros amser.
- Gallu i reoli – Mae'r asesiad yn hawdd ei reoli ac mae'r broses reoli'n un sy'n gosod gofynion rhesymol ar ganolfannau a dysgwyr. Bydd rhesymoldeb yn seiliedig ar raddfa'r broses asesu wedi'i chydbwyso gan ddefnyddioldeb y canlyniadau.
- Lleihau rhagfarn – sy'n ymwneud â sicrhau nad yw asesiad yn cynhyrchu canlyniadau afresymol o niweidiol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin (ac) sy'n ymwneud â thegwch i bob dysgwr, a dyletswyddau cydraddoldeb statudol.

**Asesiadau wedi'u llunio gan y ganolfan**

Agwedd CIH AO at asesu cymwysterau yw galluogi canolfannau i lunio'r asesiadau. Gwneir hyn er mwyn cael asesiad priodol sy'n adlewyrchu profiad dysgu unigryw ac amgylchiadau lleol grwpiau dysgwr penodol.

Disgwylir i ganolfannau greu strategaethau asesu sy'n diwallu anghenion eu grwpiau dysgwyr yn uniongyrchol ac sy'n ystyried gofynion cyflogwyr lleol.

**Dulliau asesu**

Caniateir y dulliau asesu canlynol ar gyfer asesu'r cymhwyster:

- Gwaith cwrs
- Portffolio tystiolaeth
- E-asesu
- Aseiniad/arddangosiad ymarferol

**Ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol**

Mae CIH AO yn mynnu bod canolfannau'n cydymffurfio â pholisi ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol CIH.

Mae addasiad rhesymol yn golygu unrhyw gam gweithredu sy'n helpu i leihau effaith anabledd neu anhawster sy'n rhoi'r dysgwr dan anfantais sylweddol yn y sefyllfa asesu. Ni ddylai addasiadau rhesymol effeithio ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y canlyniadau asesu. Mae'n rhaid i'r ganolfan roi'r addasiadau i'r asesiad ar waith a rhoi gwybod i CIH AO am hyn.
Gellir rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwr yn dilyn asesiad wedi'i drefnu, er enghraifft;

- Mae'r dysgwr yn bresennol ar gyfer yr asesiad ond gallai fod wedi bod o dan anfantais oherwydd salwch, anaf neu amgylchiadau anffafriol dros dro a gododd yn ystod neu'n agos at adeg asesiad.
- Mae'r dysgwr yn colli rhan o'r asesiad o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Os yw'r ganolfan yn cymeradwyo/gwrthod ystyriaeth arbennig (fel addasiad asesiad bach i farc y dysgwr ar ôl asesiad, neu addasiad i ddyddiad cyflwyno asesiad), rhaid iddi gadw tystiolaeth o'i phenderfyniad er mwyn i'r cymedrolwr allanol graffu arni.

## Sicrhau ansawdd allanol

Mae'r system sicrhau ansawdd allanol yn nodwedd allweddol o'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer CIH AO. Mae'r Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol a'r cymedrolwyr yn chwarae rôl hollbwysig yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n meddu ar dystysgrif cymhwyster CIH AO wedi cyrraedd safon sy'n cael ei derbyn yn genedlaethol. Rhaid i'r cymedrolwr sicrhau bod digon o dystiolaeth ar gael i ddangos bod yr egwyddorion sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal.

Bydd CIH AO yn penodi Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol a chymedrolwr ar gyfer pob canolfan gymeradwy i fonitro'r gwaith sicrhau ansawdd yn y ganolfan. Ni ddylid dechrau darparu'r cymhwyster nes bod y strategaeth asesu a'r brîff(iau) asesu wedi cael eu cymeradwyo gan CIH AO. Yn ystod y cwrs, bydd y cymedrolwr yn asesu sampl o'r asesiadau sydd wedi'u cwblhau a bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn cynnal ymweliad adolygu ansawdd bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am sicrhau ansawdd, edrychwch ar lawlyfr y ganolfan a'r polisi sancsiynau.

## Dogfennau perthnasol eraill

Dyma restr o ddogfennau eraill y mae'n rhaid i'ch canolfan fod yn gyfarwydd â nhw mewn perthynas â dylunio, darparu, asesu a sicrhau ansawdd cymhwyster CIH AO.

- Gweithdrefn apelio
- Llawlyfr asesu
- Cytundeb canolfan
- Llawlyfr canolfan
- Polisi cwynion
- Polisi gwrthdaro rhwng buddiannau
- Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Polisi camymarfer
- Marchnata cymwysterau CIH
- Polisi cadw cofnodion
- Polisi sancsiynau
- Polisi ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol
- Polisi cydnabod dysgu blaenorol
- Ffurflen gais ar gyfer cymeradwyo/hysbysu newid cwrs canolfan

Mae rhagor o wybodaeth a dogfennau ar gael ar safle Moodle CIH i Ganolfannau.

## Darpariaeth tai a sefydliadau tai

| | |
|---|---|
| **Lefel yr uned:** | **2** |
| **Gwerth credyd yr uned:** | **4** |
| **Cyfeirnod yr uned:** | **M/617/2120** |
| **Cyfeirnod CIH AO:** | **HP201** |
| **Statws yr uned:** | **Gorfodol** |

**Pwrpas/nod yr uned**

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o sut mae tai'n cael eu darparu. Bydd dysgwyr yn ystyried gwahanol fathau o landlord, yr ystod o wasanaethau maen nhw'n eu cynnig, sut maen nhw'n ariannu tai a'r berthynas rhwng y landlord a'r tenant.

| Canlyniadau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall darpariaeth tai a deiliadaeth yng nghyd-destun tueddiadau yn y farchnad dai. | 1.1 Amlinellu tueddiadau allweddol yn y farchnad dai.<br>1.2 Disgrifio gwahanol fathau o ddeiliadaeth tai.<br>1.3 Esbonio prif nodweddion y prif ddaliadaethau. |
| 2. Gwybod am y berthynas rhwng y landlord a'r tenant. | 2.1 Disgrifio'r gwahanol fathau o landlord yn y sector rhentu.<br>2.2 Disgrifio'r ystod o wasanaethau y mae landlordiaid a/neu sefydliadau tai yn eu darparu.<br>2.3 Disgrifio hawliau a chyfrifoldebau gwahanol fathau o landlord a'u tenantiaid. |
| 3. Gwybod am y partneriaethau a'r cydweithrediadau y mae sefydliadau tai'n cymryd rhan ynddynt i ddarparu gwasanaethau. | 3.1 Nodi'r partneriaid, y contractwyr a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda darparwyr tai i ddarparu gwasanaethau.<br>3.2 Amlinellu'r mathau o wasanaethau a ddarperir gan y partneriaid, y contractwyr a'r gwirfoddolwyr hyn.<br>3.3 Esbonio rolau a chyfrifoldebau sefydliadau tai a'u partneriaid, eu contractwyr a'u gwirfoddolwyr o ran darparu'r gwasanaethau hyn. |
| 4. Gwybod sut mae sefydliadau tai yn cael eu rheoleiddio a'u hariannu. | 4.1 Nodi rôl y rheoleiddiwr/rheoleiddwyr ym maes tai.<br>4.2 Nodi'r ffyrdd y mae sefydliadau tai yn ariannu eu gweithrediadau tai. |

## Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai

| | |
|---|---|
| **Lefel yr uned:** | **2** |
| **Gwerth credyd yr uned:** | **3** |
| **Cyfeirnod yr uned:** | **T/617/2121** |
| **Cyfeirnod CIH AO:** | **HP202** |
| **Statws yr uned:** | **Gorfodol** |

**Pwrpas/nod yr uned**

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o wasanaeth i gwsmeriaid, gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ymwybyddiaeth o anghenion gwahanol gwsmeriaid yn y cyd-destun tai.

| Canlyniadau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall egwyddorion gwasanaeth i gwsmeriaid. | 1.1 Disgrifio egwyddorion gwasanaeth i gwsmeriaid.<br>1.2 Esbonio pwysigrwydd cyfrinachedd ym maes gwasanaeth i gwsmeriaid.<br>1.3 Disgrifio ffyrdd priodol o ymateb i gwsmeriaid mewn amgylchiadau anodd. |
| 2. Gwybod am ystod ac anghenion amrywiol cwsmeriaid ym maes tai. | 2.1 Rhestru gwahanol gwsmeriaid sefydliad tai.<br>2.2 Nodi gwahanol anghenion y cwsmeriaid hyn. |
| 3. Deall egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth. | 3.1 Esbonio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br>3.2 Amlinellu prif ddarpariaethau deddfwriaeth a pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. |

## Datblygu proffesiynol ym maes tai

**Lefel yr uned:** **2**
**Gwerth credyd yr uned:** **3**
**Cyfeirnod yr uned:** **A/617/2122**
**Cyfeirnod CIH AO:** **HP203**
**Statws yr uned:** **Gorfodol**

**Pwrpas/nod yr uned**
Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o wahanol rolau mewn cyd-destun tai a'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i'w cyflawni. Bydd y dysgwr hefyd yn archwilio ei ddatblygiad proffesiynol personol.

| Canlyniadau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Gwybod am rolau cyflogedig a gwirfoddol yn y sector tai. | 1.1 Nodi rolau cyflogedig a gwirfoddol yn y sector tai.<br>1.2 Disgrifio gwahanol rolau yn y sector tai, rhai cyflogedig a gwirfoddol. |
| 2. Deall y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i weithio yn y sector tai. | 2.1 Archwilio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer rôl benodol yn y sector tai.<br>2.2 Cymharu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymddygiadau ei hunain â'r rheini sy'n ofynnol ar gyfer rôl benodol.<br>2.3 Diffinio moeseg a phroffesiynoldeb ym maes tai. |
| 3. Gallu cynllunio datblygiad proffesiynol personol. | 3.1 Nodi anghenion sgiliau a gwybodaeth unigol.<br>3.2 Amlinellu'r cymwysterau, yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu a fyddai'n addas i ddiwallu anghenion sgiliau a gwybodaeth unigol. |

## Asedau, atgyweirio, a chynnal a chadw

**Lefel yr uned:** **2**
**Gwerth credyd yr uned:** **4**
**Cyfeirnod yr uned:** **F/617/2123**
**Cyfeirnod CIH AO:** **HP204**
**Statws yr uned:** **Gorfodol**

**Pwrpas/nod yr uned**
Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r prif fathau o anheddau a sut maen nhw'n cael eu cynnal a chadw, a'u hatgyweirio.

| Canlyniadau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Gwybod beth yw'r prif fathau o anheddau ar draws y stoc dai. | 1.1 Disgrifio'r prif ddulliau o adeiladu stoc tai a sut mae hynny wedi newid dros amser.<br>1.2 Crynhoi prif nodweddion strwythurol annedd nodweddiadol.<br>1.3 Nodi'r cyfleustodau sy'n cael eu darparu i annedd nodweddiadol. |
| 2. Deall y cysyniad o reoli asedau ar gyfer sefydliadau tai. | 2.1 Crynhoi pwrpas rheoli asedau ym maes tai.<br>2.2 Nodi'r mathau o weithgareddau sy'n rhan o reoli asedau. |
| 3. Deall y broses o reoli gwaith atgyweirio a chynnal a chadw stoc tai. | 3.1 Disgrifio'r broses a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth atgyweirio ymatebol.<br>3.2 Disgrifio'r broses a ddefnyddir i gyflawni rhaglenni gwaith a gynlluniwyd. |

## Eithriadau

Ystyrir bod yr unedau canlynol wedi'u heithrio rhag cyflawniad unedau penodol o'r cymhwyster hwn oherwydd eu bod yn bodloni o leiaf 80% o'r meini prawf asesu. Pwrpas hyn yw cefnogi'r broses bontio ac osgoi'r baich diangen o ddyblygu dysgu, gan gynnal dilysrwydd y cymhwyster ar yr un pryd.

| Teitl yr uned | Eithriadau |
|---|---|
| Darpariaeth tai a sefydliadau tai<br>M/617/2120 | Darpariaeth tai a sefydliadau tai<br>D/602/1225 |
| Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai<br>T/617/2121 | Gofal cwsmeriaid yng nghyd-destun tai<br>H/602/1226 |
| Datblygu proffesiynol ym maes tai<br>A/617/2122 | Gyrfaoedd a chyfleoedd ym maes tai<br>K/602/1227 |
| Asedau, atgyweirio, a chynnal a chadw<br>F/617/2123 | Cyflawni'r ddau hyn;<br>Adeiladu tai<br>D/503/2716<br>Systemau cynnal a chadw tai<br>M/503/2719 |

- Dyma enghraifft o sut gallai'r cymhwyster gysylltu â'r Safon Prentisiaeth: Cynorthwyydd Rheoli Tai ac Eiddo, Lloegr.
- Nid yw'r cysylltiadau a ddangosir yn hollgynhwysfawr nac yn derfynol, oherwydd mewn rhai achosion bydd yn dibynnu ar yr hyn a ddysgir fel rhan o'r cwrs, ac i ba ddyfnder. Er enghraifft, gall dysgu sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai roi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio'r sgiliau a amlinellir fel rhan o'r safon prentisiaeth. Os yw'r cymhwyster yn cael ei ddefnyddio fel rhan o brentisiaeth, bydd gofyn i'r darparwr gwblhau ei waith mapio manwl ei hun.
- Mae'n ofynnol i'r cyflogwr a'r darparwr hyfforddiant sy'n gyfrifol am gyflawni'r safon prentisiaeth sicrhau bod cynnwys eu cwrs yn rhoi sylw i'r safon prentisiaeth, ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad pwynt terfyn.

| Gwybodaeth | Deddfwriaeth a rheoleiddio | Gwybodaeth gefndir am y sefydliad | Asedau | Cwsmeriaid | Cyd-destun | Ystod gwasanaethau | Safonau ansawdd | Polisïau sefydliadol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth tai a sefydliadau tai | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | |
| Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Datblygu proffesiynol ym maes tai | | | | | | | | |
| Asedau, atgyweirio, a chynnal a chadw | | | ✓ | | | | | |

| Sgiliau | Gwasanaeth i gwsmeriaid | Ymateb i fregusrwydd | Cyfathrebu | Gweinyddu | Casglu / rhannu gwybodaeth | Gwaith tîm | Rheoli amser | Offer a chyfarpar | Gwneud penderfyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth tai a sefydliadau tai | | | | | | | | | |
| Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | |
| Datblygu proffesiynol ym maes tai | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Asedau, atgyweirio, a chynnal a chadw | | | | | | | | | |

| Ymddygiadau | Ymatebol | Ymddiriedaeth ac uniondeb | Gallu i addasu | Dibynadwyedd | Ymrwymiad personol | Gofal cwsmeriaid | Gwaith tîm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth tai a sefydliadau tai | | | | | | | |
| Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai | | | | | | | |
| Datblygu proffesiynol ym maes tai | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Asedau, atgyweirio, a chynnal a chadw | | | | | | | |